

# **Grŵp Llandrillo Menai**

## **Polisi Ymddygiad Dysgwyr**

**Fersiwn: 6**

**Cymeradwywyd y drafft diwygiedig: Tachwedd 2022 Adolygu erbyn: Tachwedd 2024**

## **Polisi Ymddygiad Dysgwyr**

### **1. Cyflwyniad**

- 1.1 Mae Grŵp Llandrillo Menai ynn @hyrwyddo amgylchedd cadarnhaol a diogel i'r holl ddysgwyr, i ymwelwyr ac i staff ar bob un o'i gampysau. Drwy ddiffinio sut y disgwylir i ddysgwyr ymddwyn a thrwy ddarparu canllawiau ar y gweithdrefnau o ran ymdrin ag ymddygiad amhriodol, mae'r Polisi Ymddygiad Dysgwyr a'r Gweithdrefnau Disgyblu'n ategu ymrwymiad y Grŵp i sefydlu a chynnal diwylliant o barchu eraill.
- 1.2 Cefnogir gweithrediad y Polisi Ymddygiad Dysgwyr ymhellach gan bolisiâu a dogfennau canllaw'r Grŵp sy'n amlinellu arferion a phrotocolau e.e. Presenoldeb Dysgwyr, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, Diogelu a Chwynion.

### **2 Cwmpas**

- 2.1 Mae'r Polisi Ymddygiad Dysgwyr a'r Gweithdrefnau Disgyblu'n berthnasol i'r holl ddysgwyr pan fyddant ar y campws; pan fyddant yn teithio yn ôl ac ymlaen i'r coleg; pan fyddant ger campws y coleg yn ystod dyddiau coleg; pan fyddant mewn digwyddiadau colegol lle mae dysgwyr, staff neu ymwelwyr yn bresennol; pan fyddant yn cynrychioli'r coleg mewn digwyddiadau allanol; neu tra ar ymweliadau neu deithiau, neu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau a chyfnodau preswyl; ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn academiaidd. Ymddygiadau penodol oddi ar y safle, ac ar y safle.®
- 2.2 Mae'n ddyletswydd ar bob aelod staff i herio ymddygiad annerbyniol gan ddysgwyr ac i roi'r gweithdrefnau disgyblu ar waith fel y bo'n briodol, oni bai bod gwneud hynny'n peryglu eu diogelwch personol.
- 2.3 Mae gan Reolwyr Rhaglen gyfrifoldeb cyffredinol am reoli ymddygiad dysgwyr yn eu maes a gallant ddefnyddio'r Gweithdrefnau Disgyblu mewn ymateb i gamymddygiad.
- 2.4 Nid yw'r Polisi Ymddygiad Dysgwyr yn gwahaniaethu'n uniongyrchol nac yn anuniongyrchol ac mae'n sicrhau bod y Gweithdrefnau Disgyblu'n ymdrin â dysgwyr mewn dull teg a chyfartal, beth bynnag fo eu hoedran, rhyw, anabled, anghenion dysgu ychwanegol, hil, tueddiad rhywiol, crefydd neu greddo neu unrhyw nodwedd personol arall.

### **3. Cytundeb Dysgu**

3.1 Mae'r Cytundeb Dysgu'n amlinellu cyfrifoldeb y dysgwr i gynnal amgylchedd diogel a llawn parch. Disgwylir i bob dysgwr ddangos parch ac ymddwyn yn gyfrifol ac yn gwrtais bob amser. Bydd y Cytundeb Dysgu ar gael i ddysgwyr trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.

3.2 Yn rhan o broses gynefino'r coleg, caiff y disgwyliaid o ran ymddygiad dysgwyr eu hegluro'n glir iddynt, fel yr amlinellir isod. Rhoddir cefnogaeth ac ystyriaeth i ddysgwyr a allai wynebu heriau oherwydd nodwedd warchoddedig.

1. Bod yn gyfrifol amdanynt eu hunain, am eu heiddo personol ac am eu dysgu
2. Mynychu sesiynau'n rheolaidd ac yn brydlon (gan gynnwys unrhyw sesiynau cefnogi ychwanegol a drefnwyd, ac arholiadau neu asesiadau mewnol ac allanol), dychwelyd aseiniadau a gwaith cwrs mewn pryd
3. Gweithio tuag at dargedau y cytunwyd arnynt a gwneud pob ymdrech i gyrraedd y targedau hynny
4. Gwisgo laniard colegol a cherdyn adnabod tra yn y coleg
5. Defnyddio Porth y Dysgwyr i gael y wybodaeth ddiweddaraf am eu cynnydd academaidd a'u hanghenion o ran cefnogaeth
6. Cadw golwg cyson ar eu cyfrif e-bost colegol i edrych a oes gohebiaeth gan staff y coleg
7. Diffodd eu ffôn symudol pan mewn dosbarthiadau, llyfrgelloedd a mannau astudio
8. Gofalu am offer, llyfrau a deunyddiau a dychwelyd yr hyn y maent yn ei fenthyca
9. Talu unrhyw arian sy'n ddyledus am ffioedd, arholiadau, deunyddiau ac ati

3.3 Mae'r canlynol yn enghreifftiau o ymddygiad annerbyniol a allai arwain at gamau disgyblu:

1. Bwlio, trais, poeri, iaith ymosodol, aflonyddu ar eraill gan gynnwys aflonyddu arnynt drwy'r cyfryngau cymdeithasol
2. Cyhoeddi a dosbarthu deunydd ymosodol, difriol neu amhriodol am ddysgwyr, staff neu unigolion eraill sy'n gysylltiedig â'r coleg, mewn fformat ysgrifenedig neu electronig.
3. Torri rheolau lechyd a Diogelwch (e.e. gyrru'n ddiotal, ymyrryd â larymau tân neu beidio â dilyn gweithdrefnau diogelwch tân, ysmegu yn unrhyw un o adeiladau neu gerbydau'r coleg, peidio â gwisgo dillad diogelu pan fo angen)
4. Defnyddio neu feddu ar alcohol yn y coleg neu ar ymweliadau/teithiau/gweithgareddau a chyfnodau preswyl
5. Defnyddio neu feddu ar sylweddau anghyfreithlon a/neu geriach cyffuriau yn y coleg neu ar ymweliadau/teithiau/gweithgareddau a chyfnodau preswyl
6. Gweithredu'n groes i Ganllawiau i Ddysgwyr GLIM ynghylch Dysgu Ar-lein.
7. Camdefnyddio, difrodi neu ddwyn eiddo
8. Copïo gwaith rhywun arall yn anonest a/neu ffugio cofnodion y coleg.
9. Gweithredu'n groes i'r Polisi TG mewn unrhyw fodd (e.e. gosod meddalwedd ar beiriannau'r coleg, ail-ffurfweddu peiriannau'r coleg mewn unrhyw fodd, defnyddio gwefannau amhriodol)

10. Gwrthod gwisgo laniard colegol a/neu ddangos eu cerdyn adnabod pan ofynnir iddynt wneud hynny
11. Achosi difrod i gerbyd a ddarparwyd gan y coleg, neu ymddwyn yn anghymdeithasol wrth ddefnyddio cerbyd a ddarparwyd gan y coleg
12. Unrhyw ymddygiad arall ar neu oddi ar safle'r coleg, neu ar-lein a allai ddwyn anfri ar y coleg.

#### 4. Diffiniadau

- 4.1 Bydd y camau disgyblu'n adlewyrchu amgylchiadau a difrifoldeb y drosedd ac yn ystyried camau disgyblu blaenorol a gymerwyd yn erbyn y dysgwr sydd dan sylw. Er nad ydynt yn gyflawn, mae'r diffiniadau canlynol yn rhoi arweiniad ar sut i ddefnyddio'r gweithdrefnau disgyblu.

#### 4.2 Camymddygiad

Enghreifftiau o gamymddwyn:

- Bod yn hwyr yn gyson
- Bod yn absennol yn gyson heb roi rheswm/heb i'r absenoldeb gael ei gymeradwyo
- Diffyg parch at ddysgwyr eraill, staff ac ymwelwyr
- Agwedd wael a diffyg ymdrech yn y dosbarth
- Gwaith a osodwyd yn cael ei gyflwyno a/neu ei gwblhau'n hwyr yn gyson
- Gwrthod dangos cerdyn adnabod ar gais aelod o'r staff
- Peidio â defnyddio cyfleusterau ac offer y coleg gyda gofal a dyledus barch
- Peidio â thalu ffioedd a chostau i'r coleg
- Defnyddio ffôn symudol yn yr ystafell ddosbarth heb ganiatâd aelod o'r staff
- Ysmygu a defnyddio e-sigaréts mewn manau nas dynodwyd i'r pwrpas hwnnw

#### 4.3 Camymddygiad Difrifol

Enghreifftiau o gamymddwyn dybryd:

- Twyllo neu lèn-ladrad
- Aflonyddu neu fwlio, yn gorfforol neu'n llafar, gan gynnwys drwy ddulliau electronig fel ffonau symudol, cyfryngau cymdeithasol, e-bost, cymryd neu ddsbarthu ffotograffau/fideos neu recordio sgysiau heb ganiatâd blaenorol
- Gweithredu'n groes i Bolisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Grŵp, e.e. **Aflonyddu, eriedigaeth** neu ymddygiad gwahaniaethol yn erbyn unrhyw berson arall ar sail oedran, anabledd, hil, tarddiad ethnig neu genedlaethol, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth rhywedd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd, mamolaeth, priodas neu bartneriaeth sifil, lliw neu gefndir economaidd-gymdeithasol
- Bod o dan ddylanwad alcohol a/neu gyffuriau
- Bod â sylweddau anghyfreithlon a geriach cyffuriau yn eu meddiant. [?](#)
- Delio mewn sylweddau anghyfreithlon neu feddyginiaethau a roddwyd ar bresgripsiwn i rywun arall
- Ymddygiad treisgar neu fygythiol, trais ar sail rhywedd (gan gynnwys cario arfau, real neu ffug, ni waeth beth fo'r bwriad i'w defnyddio)
- Fandaliaeth
- Dwyn
- Camddefnyddio neu amharu ar rwydwaith TG a chaledwedd y coleg

- Unrhyw ymddygiad troseddol sydd wedi neu a allai ddwyn anfri ar enw da'r coleg (pa un ai a yw'n digwydd ar dir y coleg neu yn ystod oriau'r coleg neu beidio) [?] [?]

## **5. Ymyriadau Disgyblu**

5.1 Cyn unrhyw ymyriad disgyblu, rhaid cynnig cymorth, lle bo'n briodol, drwy gynllun cymorth neu atgyfeiriad i Wasanaethau i Ddysgwyr.

5.2 Mae dau fath o ymyriad y gellir eu defnyddio yn rhan o'r Gweithdrefnau Disgyblu er mwyn ymateb i dorri'r Polisi Ymddygiad Dysgwyr. Y rhain yw:

- Ymyriad anffurfiol
- Ymyriad ffurfiol

5.3 Mae ymyriadau anffurfiol yn cynnwys cyfweld y dysgwr yn anffurfiol i drafod pam fod yr ymddygiad yn achos pryder. Mae enghreifftiau o achosion pryd y gellir defnyddio ymyriadau anffurfiol yn cynnwys ysmegu a defnyddio e-sigaréts mewn mannau nas dynodwyd, defnyddio ffôn symudol yn yr ystafell ddosbarth, bod yn swnllyd neu ymddwyn yn afreolus yn yr ystafell ddosbarth neu mewn mannau cyhoeddus.

5.4 Mae ymyriadau ffurfiol yn cynnwys Rhybudd Llafar, Rhybudd Ysgrifenedig, Rhybudd Ysgrifenedig Terfynol, Atal dros Dro a/neu Wahardd. Gellir rhoi rhybuddion fesul cam, hynny yw Rhybudd Llafar, Rhybudd Ysgrifenedig a Rhybudd Ysgrifenedig Terfynol, ond nid o reidrwydd, gan y dibynna ar ddifrifoldeb y tramgwyddo.

5.5 Rhaid ymyrryd yn ffurfiol os yw'r dysgwr wedi camymddwyn yn gyson neu os cafwyd achos o gamymddwyn difrifol.

5.6 Yn ddieithriad, rhaid ymyrryd yn ffurfiol os ceir achos o gamymddwyn dybryd, fel y'i diffinnir yn y Polisi Ymddygiad Dysgwyr. Rhaid rhoi gwybod i'r Pennaeth Cynorthwyol atebol, neu yn ei absenoldeb, uwch aelod arall o'r staff, pan ystyrir atal dysgwr dros dro am gamymddygiad difrifol.

## **6. Dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol**

6.1 Disgwylir i bob dysgwr gadw at yr un safonau ymddygiad. Fodd bynnag, mewn rhai sefyllfaoedd, mae'r coleg yn cydnabod y gall fod ar ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol angen ystyriaeth bellach. Dylid defnyddio'r gweithdrefnau disgyblu yn ôl amgylchiadau unigol os yw'n hysbys fod gan ddysgwyr anawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu; broblemau ymddygiad/emosiynol; anawsterau dysgu neu anabledau. [?] [?]

6.2 Bob cam o'r broses ddisgyblu, dylai'r holl staff fod yn ymwybodol o anghenion dysgwyr unigol y gall cyfathrebu ysgrifenedig a chyfweliadau ffurfiol eu rhoi o dan anfantais.

6.3 Rhaid i staff ystyried anghenion unigol dysgwyr o'r fath a chynghorir hwy i gysylltu â Rheolwr Cefnogi Dysgu'r Grŵp neu â Rheolwr y Gwasanaethau i Ddysgwyr i gael arweiniad pellach.

6.4. Gall addasiadau i'r broses ddisgyblu gynnwys:

- Addasu iaith cyfathrebu ar lafar ac yn ysgrifenedig ☑ ☑ ☑
- Darparu gohebiaeth ysgrifenedig mewn fformat arall
- Darparu cyngor neu gefnogaeth eirioli ychwanegol i ddysgwyr er mwyn sicrhau ei fod yn deall y broses yn llawn
- Darparu gwasanaethau dehongli/cyfieithu mewn Panel Disgyblu

## **7. Monitro ac Adrodd**

7.1 Bydd Rheolwr y Gwasanaethau i Ddysgwyr ym mhob coleg yn cadw cofnod canolog o'r holl Baneli Disgyblu a gynhelir.

7.2 Bob tymor bydd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau i Ddysgwyr yn cyflwyno adroddiad i Dîm Rheoli bob coleg gan grynhoi canlyniadau pob Panel Disgyblu.

# **Gweithdrefnau Disgyblu Dysgwyr ar Waith**

**Fersiwn: 6**  
**Diwygiwyd:**  
**I'w adolygu erbyn:**

## **Canllawiau ar roi Gweithdrefnau Disgyblu ar waith**

### **1. Cyflwyniad**

1.1 Mae'n ddyletswydd ar bob aelod staff i herio ymddygiad annerbyniol gan ddysgwyr ac i roi'r Gweithdrefnau Disgyblu ar waith fel y bo'n briodol, oni bai bod gwneud hynny'n peryglu eu diogelwch personol. Er mwyn hyrwyddo amgylchedd diogel lle mae pawb yn parchu'i gilydd, rhaid gweithredu mewn modd cyson a defnyddio ymyriadau anffurfiol i herio ymddygiadau annerbyniol llai difrifol. Os caiff dysgwyr eu herio'n effeithiol ac yn gyson, bydd llai o angen defnyddio ymyriadau ffurfiol.

1.2 Mae staff yn gyfrifol am gyfeirio unrhyw bryderon sy'n ymwneud â chamymddygiad at Reolwr eu Maes Rhaglen ac unrhyw bryderon sy'n ymwneud â chamymddygiad dybryd at y Pennaeth Cynorthwyol neu'r Cyfarwyddwr atebol. Y Tiwtor Personol neu'r Asesydd sy'n gyfrifol am sicrhau bod unrhyw rybuddion llafar yn cael eu cofnodi ar eDrac.

1.3 Dylid rhoi gwybod ar unwaith am unrhyw bryderon ynghylch ymddygiad dysgwyr sydd ar gyrsiau'r bartneriaeth 14–19 rhwng y coleg ac ysgolion lleol i'r Uwch Reolwr sy'n gyfrifol am y ddarpariaeth 14-19. Os nad yw'r aelod hwn o'r Tîm Strategol ar gael, dylid rhoi gwybod am y mater i'r Pennaeth Cynorthwyol priodol, neu yn ei absenoldeb, i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau i Ddysgwyr, neu'r Rheolwr y Maes Rhaglen sydd â chyfrifoldeb 14-19 neu Rheolwr ar Ddyletswydd y safle.

1.4 Mae'r canlynol yn egluro'r gweithdrefnau disgyblu y dylai staff eu dilyn pan fo dysgwr wedi gweithredu'n groes i'r Polisi Ymddygiad Dysgwyr.

### **2. Ymyriadau Disgyblu**

#### **A) Ymyriad Anffurfiol**

A1 Mae ymyriadau anffurfiol yn cynnwys cyfweld y dysgwr yn anffurfiol i drafod pam fod yr ymddygiad yn achos pryder. Mae enghreifftiau o achosion pryd y gellir defnyddio ymyriadau anffurfiol yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ysmegu a defnyddio e-sigaréts mewn mannau nas dynodwyd, defnyddio ffôn symudol yn yr ystafell ddosbarth, bod yn swnllyd neu ymddwyn yn afreolus yn yr ystafell ddosbarth neu mewn mannau cyhoeddus.

A2 Gall staff wahodd Rheolwr y Maes Rhaglen i gyfarfod y dysgwr sydd dan sylw.



A3 Yn ystod y cam hwn, mae'n bwysig ceisio canfod a oes rheswm wrth wraidd yr ymddygiad neu'r diffyg cynnydd academaidd a allai ddylanwadu ar y camau a gymerir yn awr neu yn y dyfodol. Gall y rhain gynnwys:

- Anhawster i ddeall y gwaith a osodwyd
- Diffyg mynediad i adnoddau dysgu y tu allan i'r coleg
- Problemau gyda chyfoedion ~~e.e. bwlio~~
- Problemau yn y cartref neu'r tu allan i'r coleg
- Pwysau allanol eraill
- Mamolaeth, menopos, beichiogrwydd
- Anabledau cudd
- Camddefnyddio sylweddau

A4 Dylid cyfeirio unrhyw bryderon ynghylch diogelu i sylw Swyddog Diogelu heb ymdroi.

A5 Dylai staff sicrhau eu bod yn rhoi gwybod i'r Tiwtor Personol neu'r Asesydd am bob trafodaeth sy'n ymwneud ag ymddygiad dysgwr.

A6 Rhaid i'r Tiwtor Personol roi gwybod i Reolwr y Gwasanaethau i Ddysgwr ar unwaith am unrhyw gamau disgyblu a gymerir yn erbyn Dysgwr â Phrofiad o fod mewn Gofal. Bydd Rheolwr y Gwasanaethau i Ddysgwyr yn sicrhau bod yr asiantaeth briodol yn cael gwybod am unrhyw gamau disgyblu.

A7 Dylai'r Tiwtor Personol neu'r Asesydd gofnodi'r holl drafodaethau a'r camau a gytunwyd ar eDrac/Onefile a'u hadolygu yn ôl yr angen.

A8 Yn achos Prentisiaethau, dylai'r Asesydd roi gwybod i'r Rheolwr y Maes Rhaglen i gytuno a oes angen cynnwys / hysbysu Cyflogwr y Prentis.

A8 Pan nad yw dysgwr yn ymateb mewn modd derbyniol i ymyriad anffurfiol ac os yw'n parhau i dorri'r Cytundeb Dysgu dylai'r Tiwtor Personol neu'r Aseswr uwchgyfeirio'r mater i ddilyn gweithdrefnau Ymyriad Ffurfiol.

## **B) Ymyriad Ffurfiol**

Pan mae angen cynnal cyfarfodydd yn rhan o broses ymyriadau ffurfiol, mae gan y dysgwr yr hawl i'r cyfarfod ac i unrhyw gyfathrebiad gael ei ddarparu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Gellir defnyddio cyfieithu ar y pryd os gofynnir amdano.

### **B1 Camymddwyn**

**B1.1** Rhaid ymyrryd yn ffurfiol os yw'r dysgwr wedi camymddwyn yn gyson neu os cafwyd achos o gamymddwyn difrifol. Gellir rhoi rhybuddion fesul cam, hynny yw Rhybudd Llafar, Rhybudd Ysgrifenedig a Rhybudd Ysgrifenedig Terfynol, ond nid o reidrwydd, gan y dibynna ar ddifrifoldeb y tramgwyddo.

Dylid dilyn y weithdrefn a ganlyn:

**B1.2** Bydd Rheolwr y Maes Rhaglen a/neu'r Tiwtor Personol/Asesydd yn cwrdd â'r staff perthnasol i drafod y mater o fewn 5 diwrnod gwaith i'r digwyddiad.

**B1.3** Yn achos Prentisiaethau, dylid hysbysu Cyflogwr y Prentis .

**B1.4** Cyn y cyfarfod, dylai'r Tiwtor Personol neu'r Asesydd sefydlu:

- Bob rhybudd a roddwyd i'r dysgwr yn ystod y flwyddyn academiaidd
- Unrhyw gamau disgyblu blaenorol a gymerwyd yn erbyn y dysgwr
- Unrhyw amgylchiadau a allai leihau bai'r dysgwr
- Unrhyw dystiolaeth/datganiadau gan dystion ac ati.
- Unrhyw arweiniad sy'n angenrheidiol
- Yr iaith yr hoffech gyfathrebu ynddi

**B1.5** Y Tiwtor Personol/ Asesydd neu'r Rheolwr fydd yn rhoi'r rhybudd i'r dysgwr. Cofnodir y rhybudd llafar neu ysgrifenedig ar eDrac /Onefile.

**B1.6** Dylai'r Tiwtor Personol, yr Asesydd neu Rheolwr y Maes Rhaglen ysgrifennu at rieni/gwarcheidwaid dysgwyr sydd o dan 18 oed i gadarnhau pam y rhoddwyd y rhybudd disgyblu. Yn achos Prentis, dylai'r Asesydd neu'r Rheolwr ysgrifennu at Gyflogwyr y Prentis i gadarnhau pam y rhoddwyd y rhybudd disgyblu i'r dysgwr.

**B1.7** Pan fo Dysgwr â Phrofiad o fod mewn Gofal neu os yw'n cael ei gefnogi gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid neu'r Gwasanaeth Prawf, bydd Rheolwr y Maes Rhaglen neu'r Tiwtor Personol yn cysylltu â Rheolwr y Gwasanaethau i Ddysgwyr i'w hysbysu o'r camau disgyblu ffurfiol.

**B1.8** Pan fo'r dysgwr yn cael ei gefnogi gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid neu'r Gwasanaeth Prawf, bydd Rheolwr y Gwasanaethau i Ddysgwyr yn ysgrifennu at yr asiantaeth berthnasol i'w hysbysu o'r camau disgyblu ffurfiol.

B1.9 Pan fo dysgwr yn cael ei gefnogi gan y tîm Anghenion Dysgu Ychwanegol, y Tiwtor Personol/Asesydd neu'r Rheolwr fydd yn gyfrifol am hysbysu Cydlynnydd ADY y campws hwnnw.

B1.10 Dylid cofnodi dyddiad adolygu ar eDrac /Onefile a dylai'r Tiwtor Personol neu'r Asesydd adolygu'r cynnydd gyda'r dysgwr ar y dyddiad hwnnw, fel rheol o fewn pythefnos i'r digwyddiad. Dylid rhoi cofnod o'r cyfarfod adolygu, ynghyd ag unrhyw gamau y cytunwyd arnynt, ar eDrac /Onefile.

B1.11 Dylid rhoi ail rybudd i'r dysgwr os nad yw wedi cymryd y camau a nodwyd erbyn y dyddiad adolygu. Yn achos Prentisiaethau, dylid hysbysu Cyflogwr y Prentis .

B1.12 Pan fo dysgwr yn cael rhybudd ysgrifenedig terfynol, dylid egluro wrtho y bydd yn cael ei atal o'r coleg neu bydd ei brentisiaeth yn dod i ben os bydd yn torri'r Cytundeb Dysgu / Cytundeb Dysgu'r Brentisiaeth eto (gan ddilyn y weithdrefn ar gyfer ymdrin â Chamymddwyn Dybryd). Yn achos Prentisiaethau, dylid hysbysu Cyflogwr y Prentis .

B1.13 Rhaid cadw cofnod o unrhyw gamau disgyblu a gymerwyd ar broffil eDRAC /Onefile y dysgwr tra bydd yn parhau ar y rhaglen.

B1.14 Rhaid storio'r holl gofnodion yn ddiogel ac yn unol â'r Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

## **B2 Camymddwyn Dybryd**

B2.1 Yn ddieithriad, rhaid ymyrryd yn ffurfiol os ceir achos o gamymddwyn difrifol, fel y'i diffinnir yn y Polisi Ymddygiad Dysgwyr. Rhaid rhoi gwybod i'r Pennaeth Cynorthwyol am bob achos o gamymddwyn dybryd.

Dylid dilyn y weithdrefn a ganlyn:

B2.2 Bydd yr aelod staff sy'n ymdrin â'r digwyddiad yn ei gyfeirio ar unwaith i sylw'r Pennaeth Cynorthwyol atebol, neu yn ei absenoldeb, at Bennaeth Cynorthwyol arall neu at Gyfarwyddwr y Gwasanaethau i Ddysgwyr.

B2.3 Bydd y Pennaeth Cynorthwyol/Cyfarwyddwr y cyfeiriwyd y mater i'w sylw'n cyfarfod y dysgwr i gael ei farn ar y digwyddiad ac yna'n penderfynu pa gamau y dylid eu cymryd nesaf. Os nad yw'r Pennaeth Cynorthwyol/Cyfarwyddwr ar y safle, gall ofyn i Reolwr y Maes Rhaglen gyfarfod gyda'r dysgwr, casglu'r wybodaeth berthnasol ac atgyfeirio'r mater at Bennaeth Cynorthwyol arall er mwyn penderfynu pa gamau y dylid eu cymryd nesaf. Gall y Pennaeth Cynorthwyol ofyn i Reolwr y Maes Rhaglen i rannu'r penderfyniad â'r dysgwr a'i riant/gwarchodwr ar ei ran. Fel arfer, bydd hyn yn golygu gwahardd y dysgwr o'r coleg hyd nes y caiff ei gyfweld gan Banel Disgyblu a bydd yn rhaid i'r dysgwr adael y safle ar unwaith. Rhaid ystyried anghenion dysgu'r dysgwr a/neu'r gefnogaeth les y mae'n ei derbyn. Rhaid rhoi gwybod hefyd i Reolwr y Gwasanaethau i Ddysgwyr.

B2.4 Bydd Rheolwr y Gwasanaethau i Ddysgwyr yn anfon llythyr drwy ddsbarthiad a gofnodwyd at y dysgwr o fewn tri diwrnod gwaith (ynghyd â llythyr at y rhieni/gwarcheidwaid/cyflogwyr) i'w hysbysu o amodau a thelerau'r atal dros dro.

B2.5 Bydd y Pennaeth Cynorthwyol/Cyfarwyddwr atebol yn trefnu ymchwiliad llawn i'r mater: gall hyn olygu cyfweild tystion, casglu datganiadau gan dystion a chasglu tystiolaeth ddogfennol. Rhaid rhannu holl gofnodion yr ymchwiliad â Rheolwr y Gwasanaethau i Ddysgwyr er mwyn paratoi at Banel Disgyblu.

### **C) Gweithdrefnau'r Panel Disgyblu**

C1 O fewn 7 diwrnod gwaith o ddyddiad gwaharddiad y dysgwr, bydd Rheolwr y Gwasanaethau i Ddysgwyr yn anfon llythyr drwy ddsbarthiad a gofnodwyd at y dysgwr (ynghyd â chopi at rhieni/gwarchodwyr/cyflogwyr/asiantaethau os yn briodol) yn dewis iaith y dysgwr. Bydd y llythyr yn nodi dyddiad, amser a lleoliad y Panel Disgyblu ynghyd â manylion y camymddwyn honedig a thystiolaeth gysylltiedig (lle y bo'n briodol) e.e. adroddiad ar yr ymchwiliad, datganiadau ysgrifenedig, cofnodion y dysgwr.

C2 Bydd y Panel Disgyblu'n cynnwys y Rheolwr Maes Rhaglen perthnasol ac un Pennaeth Cynorthwyol/Cyfarwyddwr ynghyd â Rheolwr y Gwasanaethau i Ddysgwyr. \* Dylai o leiaf un aelod o'r panel fod o'r un rhyw â'r dysgwr. Cadeirydd y Panel fydd y Pennaeth Cynorthwyol/Cyfarwyddwr. Mae gan y dysgwr yr hawl i'r gwrandawriad gael ei gynnal drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Darperir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn ôl y gofyn.

C3 Mae gan y dysgwr hawl i gyflwyno ei achos i'r Panel Disgyblu a chael cwmni hyd at ddau unigolyn, gan gynnwys cynrychiolydd o Undeb y Myfyrwyr, rhieni, gwarcheidwaid, ffrindiau neu gyflogwyr (ond nid cynrychiolydd cyfreithiol). Rhaid i'r dysgwr hysbysu Rheolwr y Gwasanaethau i Ddysgwyr ymlaen llaw o enwau a statws y bobl fydd yn dod gydag ef i'r cyfarfod.

C4 Bydd Cadeirydd y Panel Disgyblu'n cyflwyno pawb sy'n bresennol, yn crynhoi'r gweithdrefnau disgyblu a'r canlyniadau posibl ac yn cyfeirio at unrhyw rybuddion disgyblu blaenorol a roddwyd i'r dysgwr, gan gynnwys rhybuddion llafar.

C5 Bydd y rheolwr a ymchwiliodd i'r mater yn cyflwyno'r rheswm dros gymryd camau disgyblu ynghyd â manylion yr hyn a wnaed yn groes i'r Cytundeb Dysgu / Cytundeb Dysgu'r Brentisiaeth.

C6 Caiff y dysgwr ei wahodd i gyflwyno ei safbwynt ac i ymateb i'r cyhuddiadau.

C7 Bydd Tiwtor Personol neu Asesydd y dysgwr yn cyflwyno i'r Panel dystiolaeth am gymeriad y dysgwr ynghyd â chrynodeb o'r cynnydd academaidd a wnaed hyd yn hyn.

C8 Ym mhob achos, bydd y dysgwr (a'r rhieni/gwarcheidwaid/cyflogwyr) yn cael gwybod am y penderfyniad ar bapur (gweler adran D).

C9 Fel arfer, os na fydd y dysgwr yn ymateb i'r gwahoddiad neu os na fydd yn bresennol, cynhelir y Panel Disgyblu yn ei absenoldeb. Fodd bynnag, os bydd y Panel yn penderfynu cynnal cyfarfod arall, caiff y dysgwr ei hysbysu o'r dyddiad newydd.

C10 Caiff yr holl ddogfennau sy'n berthnasol i waith y panel eu cadw'n ganolog gan Reolwr y Gwasanaethau i Ddysgwyr yn unol â'r rheoliadau cyffredinol ar ddiogelu data.

#### **D) Canlyniadau Panel Disgyblu**

D1 Os bydd Panel Disgyblu'n penderfynu bod y dystiolaeth o gamymddygiad yn ddigonol, yna gall y canlyniadau'n amrywio o Rybudd Ysgrifenedig Cyntaf i Rybudd Ysgrifenedig Terfynol neu Waharddiad / Terfynu'r Brentisiaeth.

D2 Rhaid hysbysu'r dysgwr (a'r rhieni/gwarcheidwaid/cyflogwyr/asiantaethau) yn ysgrifenedig, a thrwy ddsbarthiad a gofnodwyd, o benderfyniad y Panel o fewn 5 diwrnod gwaith i ddyddiad y Panel. Rhaid i'r llythyr egluro amodau a thelerau'r Gwaharddiad / Terfyniad neu'r aildderbyn. Dylai'r llythyr hefyd hysbysu'r dysgwr o'i hawl i apelio yn erbyn penderfyniad y Panel.

D3 Os penderfynir aildderbyn y dysgwr ar ôl dyddiad y cytunwyd arno, rhaid i Reolwr y Gwasanaethau i Ddysgwyr hysbysu'r holl reolwyr perthnasol. Dan amgylchiadau o'r fath, bydd gofyn i'r dysgwr gadw at unrhyw amodau penodol a osodwyd.

D4 Bydd y Tiwtor Personol neu Asesydd yn diweddarau cofnodion y dysgwr â chanlyniad y panel ar eDrac/ Onefile ac yn monitro'i ymlyniad at yr amodau penodol.

D5 Os penderfynir, o ganlyniad i'r Panel, bod y dysgwr i gael ei wahardd neu os terfynir y brentisiaeth, bydd rhaid i Reolwr y Gwasanaethau i Ddysgwyr hysbysu'r holl reolwyr perthnasol (gan gynnwys Rheolwr y Gofrestrfa/Rheolwr MIS) a rhaid i'r Tiwtor Personol sicrhau bod enw'r dysgwr yn cael ei dynnu oddi ar yr holl raglenni astudio yn unol â gweithdrefnau'r coleg.

D6 Rhaid i bob dysgwr a waherddir o'r coleg neu y terfynwyd ei brentisiaeth ac sydd, yn y flwyddyn academaidd ddilynol, yn gwneud cais i astudio ar unrhyw un o gampysau Grŵp Llandrillo Menai, fynd ger bron Panel Derbyn. Trefnir hyn gan Reolwr y Gwasanaethau i Ddysgwyr, a gadeirir gan y Pennaeth Cynorthwyol, ac a fydd yn cynnwys Cyfarwyddwr y Gwasanaethau i Ddysgwyr neu Bennaeth Cynorthwyol arall neu Gyfarwyddwr..

### **E) Y Drefn Apelio**

E1 Os na fydd y panel wedi dilyn y trefnau cywir, mae gan ddysgwyr hawl i apelio yn erbyn gwaharddiad neu derfyniad prentisiaeth. Dyma rai enghreifftiau o hyn:

- Ni roddodd y Panel ddigon o amser i'r dysgwr egluro amgylchiadau lliniarol.
- Camgymeriadau gweithdrefnol
- Bodolaeth tystiolaeth newydd

E2 Dylai'r dysgwr wneud apêl ysgrifenedig i Bennaeth y coleg o fewn 7 diwrnod gwaith o dderbyn y cadarnhad ysgrifenedig o'r gwaharddiad neu derfyniad y brentisiaeth.

E3 Os bydd y Pennaeth yn credu bod sail ddigonol dros apelio, bydd y Pennaeth ac un aelod arall o'r Tîm Strategol, nad oedd yn rhan o'r panel disgyblu gwreiddiol, yn gwrando ar yr achos o fewn 20 diwrnod gwaith i dderbyn yr apêl ysgrifenedig. Cyfarwyddwr y Gwasanaethau i Ddysgwyr fydd clerc y Panel.


E4 Bydd Rheolwr y Gwasanaethau i Ddysgwyr yn darparu i'r Panel gofnod ysgrifenedig o gyfarfod y Panel Disgyblu. Gall y Panel Apêl ystyried unrhyw dystiolaeth a oedd ar gael ar y pryd ond na chafodd ei hystyried yn y panel disgyblu gwreiddiol, cyn belled â'i bod yn cael ei chyflwyno i'r Pennaeth 7 diwrnod gwaith cyn dyddiad y cyfarfod Apêl.

E5 Fel o'r blaen, mae gan y dysgwr hawl i gael cwmni ffrind, rhiant, gwarcheidwad, cyflogwr neu aelod o Undeb y Myfyrwyr (ond nid i gynrychiolaeth gyfreithiol).

E6 Bydd penderfyniad y Panel Apêl yn derfynol a bydd y dysgwr yn cael cadarnhad ysgrifenedig o fewn 5 diwrnod gwaith.

**Appendix A - Disciplinary Action Flow Chart**  
**Learner Disciplinary Procedure**

The diagram below shows the stages of the disciplinary process to be used when a learner's behaviour is in breach of the Learner Code of Conduct.







**Atodiad B - Diffiniadau o dermau:**

|     | Tymor                    | Diffiniad   |
|-----|--------------------------|---|
| 4.3 | Trais ar Sail Rhywedd    | <ul style="list-style-type: none"> <li>● Cam-drin Domestig (gan gynnwys rheolaeth drwy orfodaeth)</li> <li>● Stelcio</li> <li>● Aflonyddu neu unrhyw ymddygiad digroeso sydd â'r diben o darfu ar urddas unigolyn neu â cheir yr effaith honno, neu greu amgylchedd bygythiol, gelyniaethus, diraddiol, bychanol neu sarhaus, neu'n ymwneud â rhyw, cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth o ran rhywedd.</li> <li>● Treisio ac Ymosod yn Rhywiol</li> <li>● Cam-drin plant a cham-drin plant yn rhywiol</li> <li>● Camfanteisio'n rhywiol er budd masnachol, gan gynnwys puteindra, pornograffi a masnachu pobl</li> <li>● Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod</li> <li>● Priodasau dan Orfod a Phriodasau Plant</li> <li>● Camdriniaeth gan aelodau eraill o'r teulu, a elwir yn droseddau trais 'ar sail anrhydedd' a gwaddol</li> <li>● Bygythiadau o'r fath, gorfodaeth neu amddifadu o ryddid yn fympwyol, boed hynny mewn bywyd cyhoeddus neu breifat</li> </ul> |
| 3.2 | Nodweddion Gwarchoddedig | <ul style="list-style-type: none"> <li>● Oedran</li> <li>● Anabledd</li> <li>● Rhyw</li> <li>● Ailbennu rhyw</li> <li>● Priodas neu Bartneriaeth Sifil</li> <li>● Beichiogrwydd a Mamolaeth</li> <li>● Hil</li> <li>● Crefydd neu Gred</li> <li>● Tueddiad Rhywiol</li> </ul>   |

| Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (I Sylw'r Panel Cydraddoldeb)         |   |  |                  |
|---|---|--|------------------|
| <b>Dyddiad:</b>   |   | 12.10.2022   |                  |
| <b>Teitl y Polisi / y Weithdrefn / y Broses / y Cynllun:</b>              |   | Polisi Ymddygiad Dysgwyr   |                  |
| <b>Y Staff sy'n Ymwneud ag Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb:</b>           |   | Gwennan Richards, Angharad Roberts   |                  |
| <b>Ystyriaeth</b>   | <b>Ymateb</b>   | <b>Gofynion o ran tystiolaeth bellach</b>  | <b>Canlyniad</b> |
| <b>Pa grwpiau a warchodir a allai fod dan anfantais yn sgil y polisi?</b> | <p>Dylai'r polisi fod yn fwy gofalus gan ddefnyddio dull systemig a thosturiol gyda phawb.</p> <p>Mae'r polisi yn nodi disgwyliadau clir o ran ymddygiad dysgwyr – er bod y rhestr hon o ymddygiadau yn rhesymol, nid yw'n ystyried yr heriau a wynebwr gan rai grwpiau gwarchodedig e.e. Gall "mynychu pob sesiwn yn rheolaidd ac yn brydlon" fod yn fwy heriol i'r rheini â salwch cronig neu gyfrifoldebau gofalu, a dylid caniatáu ar gyfer amgylchiadau o'r fath fel nad yw unigolion yn wynebu gweithdrefnau disgyblu ar gyfer materion sy'n ymwneud â'u nodweddion gwarchodedig.</p> <p>Wrth geisio sefydlu achos ymddygiad (t9, pwynt A3), dylid ystyried effaith nodweddion gwarchodedig. Cyfeirir at 'anableddau cudd' ond mae llawer o faterion eraill yn ymwneud â nodweddion gwarchodedig e.e. beichiogrwydd, mamolaeth neu'r menopos, a allai effeithio ar ymddygiad a pherfformiad. Lle nodir ffactorau o'r fath fel ffactorau sy'n cyfrannu, mae'n bwysig bod dysgwyr yn cael eu cefnogi yn hytrach na'u disgyblu'n syth (gan y gall hyd yn oed disgyblaeth anffurfiol gael effaith negyddol ar ddysgwyr, a gall fod yn wahaniaethol os yw'r achos sylfaenol yn gysylltiedig â nodwedd warchodedig); dylai'r polisi felly gyfeirio at wasanaethau cymorth fel rhan o'r broses cyn disgyblu.</p> | Rhoddir ystyriaeth i amgylchiadau heriol posibl oherwydd nodwedd warchodedig a allai arwain at ddysgwyr yn torri Cod Ymddygiad Dysgwyr |                  |
| <b>Pa grwpiau a warchodir a allai gael budd o'r polisi?</b>               | <p>Gellid cryfhau'r polisi o ran sicrhau bod grwpiau gwarchodedig yn elwa pe bai'r diwygiadau a ganlyn yn cael eu gwneud:</p> <p>Gellir cryfhau adran 4.3 ymhellach pe bai'r enghraifft sy'n ymwneud â'r polisi Cydraddoldeb yn rhestru ymddygiad gwahaniaethol yn benodol e.e. Aflonyddu, erledigaeth neu ymddygiad gwahaniaethol yn erbyn unrhyw berson arall ar sail oedran, anabledd, hil, tarddiad ethnig neu genedlaethol, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth rhywedd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd, mamolaeth, priodas neu bartneriaeth sifil, lliw neu gefndir economaidd-gymdeithasol</p>   | Diwygiadau wedi'u gwneud i adran 4.3 i adlewyrchu grwpiau gwarchodedig yn fwy penodol ac yn arbennig o ran trais ar sail rhywedd       |                  |

Adran 6 (paragraff 1) - os yw'r Saesneg yn ail iaith iddynt, nid yw hyn yn cyfateb i fod ag Angen Dysgu Ychwanegol - ystyriwch y lle gorau i osod y frawddeg hon. Nid yw'n cyd-fynd â gweddill adran 6.

Nid yw'r polisi'n cyfeirio at drais ar sail rhywedd. Dylai'r polisi ystyried cynnwys y wybodaeth ganlynol:

Mae trais ar sail rhywedd yn swyddogaeth o anghydraddoldeb rhyw ac fel arfer mae'n gamddefnydd o bŵer a braint wrywaidd. Mae ymwneud â gweithredoedd sy'n arwain at niwed neu ddiodefaint corfforol, rhywiol a seicolegol neu sy'n effeithio ar urddas dynol, gan gynnwys bygythiadau o weithredoedd o'r fath, gorfodaeth neu amddifadu o ryddid yn fypwyol, boed yn digwydd mewn bywyd cyhoeddus neu breifat.

Er y cydnabyddir bod trais ar sail rhywedd yn effeithio'n bennaf ar fenywod ac mai dynion yn bennaf yw'r cyflawnwyr, gall effeithio ar unigolion o unrhyw oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, ffydd neu ethnigrwydd.

- Cam-drin Domestig (gan gynnwys rheolaeth drwy orfodaeth)
- Stelcio
- Aflonyddu neu unrhyw ymddygiad digroeso sydd â'r diben o darfu ar urddas unigolyn neu â cheir yr effaith honno, neu greu amgylchedd bygythiol, gelyniaethus, diraddiol, bychanol neu sarhaus, neu'n ymwneud â rhyw, cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth o ran rhywedd.
- Treisio ac Ymosod yn Rhywiol
- Cam-drin plant a cham-drin plant yn rhywiol
- Camfanteisio'n rhywiol er budd masnachol, gan gynnwys puteindra, pornograffi a masnachu pobl
- Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod
- Priodasau dan Orfod a Phriodasau Plant
- Camdriniaeth gan aelodau eraill o'r teulu, a elwir yn droseddau trais 'ar sail anrhydedd' a gwaddol
- Bygythiadau o'r fath, gorfodaeth neu amddifadu o ryddid yn fypwyol, boed hynny mewn bywyd cyhoeddus neu breifat

Nid yw trais ar sail rhywedd yn cael ei oddef gan y Grŵp. Rydym wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth gyda'r sefydliadau lleol perthnasol i gefnogi dioddefwyr trais ar sail rhywedd, gan gynnwys cynorthwyo dioddefwyr i adrodd troseddau a amheuir i'r heddlu. Gellir trin honiadau neu achosion o drais ar sail rhywedd hefyd fel achos o dorri'r Cod Ymddygiad i Ddysgwyr a dilynir y gweithdrefnau perthnasol.

|  |   |  |                                      |                          |                                |                          |
|--|---|--|--------------------------------------|--------------------------|--------------------------------|--------------------------|
| <b>A yw'r polisi'n hyrwyddo cydraddoldeb ac yn meithrin cysylltiadau da?</b>               | Aseswyd bod y polisi a'r weithdrefn yn cael effaith niwtral gan nad yw'r dogfennau'n ymgysylltu â chysylltiadau â grwpiau nodweddion gwarchoddedig a rhyngddynt. Mae'n bosibl y bydd effaith gadarnhaol ddatganedig ar gyfer y categori hwn ond byddai'n heriol rhoi tystiolaeth. |  |                                      |                          |                                |                          |
| <b>A allai unrhyw ran o'r polisi wahaniaethu'n anghyfreithlon?</b>                         | Na, ond dim ond os cedwir at y polisi.  |  |                                      |                          |                                |                          |
| <b>A oes polisiâu eraill y mae angen eu newid er mwyn ategu effeithiolrwydd yr un hwn?</b> | Rhif:   |  |                                      |                          |                                |                          |
| <b>Casgliad: Ticiwch un</b>  | <b>Addasu'r Polisi</b>  |  | <b>Parhau â'r Polisi a'i brosesu</b> | <input type="checkbox"/> | <b>Atal a Diddymu'r Polisi</b> | <input type="checkbox"/> |
| <b>Rhestr o'r camau addasu:</b>  | Rhoddir ystyriaeth i amgylchiadau heriol posibl oherwydd nodwedd warchoddedig a allai arwain at ddysgwyr yn torri Cod Ymddygiad Dysgwyr<br>Diwygiadau wedi'u gwneud i adran 4.3 i adlewyrchu grwpiau gwarchoddedig yn fwy penodol ac yn arbennig o ran trais ar sail rhywedd      |  |                                      |                          |                                |                          |
| <b>Dyddiad cwblhau'r camau addasu</b>  | <a href="#">Mae'r argymhellion uchod wedi'u gweithredu a'r polisi wedi'i ddiwygio 18/10/2022</a>  |  |                                      |                          |                                |                          |
| <b>Llofnod:</b>  | Angharad Roberts  |  | <b>Dyddiad:</b>                      | 12.10.2022               |                                |                          |

Y DIWEDD

### Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

| <b>Dyddiad:</b>  | <b>12.10.22</b>   |   |                  |
|--|---|---|------------------|
| <b>Teitl y Polisi/<br/>Weithdrefn/y Broses:</b>  | Polisi Ymddygiad Dysgwyr  |   |                  |
| <b>Y Staff sy'n Ymwneud ag Asesiad o'r<br/>Effaith ar y Gymraeg</b>  | <b>Gwennan Richards, Angharad Roberts</b>   |   |                  |
| <b>Ystyriaeth</b>  | <b>Ymateb</b>   | <b>Gofynion o ran tystiolaeth<br/>bellach</b>   | <b>Canlyniad</b> |
| Pa effeithiau cadarnhaol, os o gwbl, a gaiff y penderfyniad polisi ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg? <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/>                        | Os gwneir y newidiadau isod, bydd y polisi yn sicrhau bod dysgwyr sy'n mynd drwy'r broses disgyblu ffurfiol yn gallu gwneud hynny yn Gymraeg. | <b>Diwygiadau wedi'u gwneud fel y nodir isod.</b>   |                  |
| <input type="checkbox"/> Pa effeithiau negyddol, os o gwbl, a gaiff y penderfyniad polisi ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg? <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/> | Os gwneir y newidiadau isod, nid ydym yn rhagweld unrhyw effeithiau negyddol ar ddysgwyr wrth ddefnyddio'r Gymraeg.                           | <b>Diwygiadau wedi'u gwneud fel y nodir isod.</b>   |                  |
| <input type="checkbox"/> Cyfleoedd i hybu'r Gymraeg e.e. statws, defnydd o wasanaethau Cymraeg, defnydd o'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd, cynnydd yn nefnydd y Gymraeg yn y coleg?  | Mae cyfle i wneud dysgwyr yn ymwybodol y gallent fynd drwy'r broses ddisgyblu ffurfiol yn Gymraeg.  | <b>Diwygiadau o dan 3.1:</b><br><input type="checkbox"/> Mae Cytundeb y Dysgwyr ar gael yn Gymraeg neu Saesneg. |                  |

|  |   |   |  |
|--|---|---|--|
|  | <p>Gallai'r polisi ystyried nodi bod Cytundeb y Dysgwyr ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.</p>   |   |  |
| <p>A oes digon o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i weithredu'r polisi neu'r weithdrefn? <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/></p> <p>Os nad oes, pa gamau a gymerir i sicrhau bod digon o staff ar gael, ac erbyn pryd?</p> | <p>Efallai y bydd hyn yn anodd i rai meysydd rhaglen, ond rydym yn cyflogi dau gyfieithydd ar y pryd a allai ddarparu'r gwasanaeth hwn yn ystod prosesau disgyblu ffurfiol i ddysgwyr. Fel arall, gellir defnyddio cwmnïau allanol hefyd.</p>   |   |  |
| <p>A yw'r polisi neu'r weithdrefn yn cydymffurfio â Pholisi Iaith Gymraeg Grŵp Llandrillo Menai a Hysbysiad Cydymffurfio Safonau'r Gymraeg? <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/></p>  | <p><b>Nac ydyw, nid yw'r polisi'n cydymffurfio â Safon 26 Cyflenwi Gwasanaethau fel a ganlyn:</b></p> <p><input type="checkbox"/> Os byddwch yn gwahodd unigolyn ("A") i gyfarfod, ac</p> <p>(a) mae'r cyfarfod yn ymwneud â chwyn am A neu a wnaed gan A;</p> <p><b>(b) mae'r cyfarfod yn ymwneud â chamau disgyblu ynghylch A;</b> neu</p> <p>(c) diben y cyfarfod yw darparu cymorth myfyrwyr i A,</p> | <p><b>Mae gan bob dysgwr yr hawl i diwtor personol sy'n siarad Cymraeg. Pan mae gan ddysgwyr diwtor personol nad yw'n siarad Cymraeg, ni fydd yn bosibl mynd â'r dysgwr drwy'r ymagwedd anffurfiol o'r broses ddisgyblu yn Gymraeg (oni bai y defnyddir cyfieithwyr ar y pryd - a allai fod yn anymarferol). Gall y polisi gyfeirio at diwtoriaid personol / aseswyr a rheolwyr yn ystyried anghenion ieithyddol dysgwyr yn y cam hwn o'r</b></p> |  |

|  |  |  |
|--|--|--|
| <p>rhaid i chi-</p> <p>(i) ofyn i A a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, ac</p> <p>☒</p> <p>(ii) hysbysu A y byddwch, os oes angen, yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg at y diben hwnnw.</p> <p><b>Safon 26A Cyflenwi Gwasanaethau:</b></p> <p><b>Rhaid trefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg ar gael mewn cyfarfod —</b></p> <p>☒</p> <p>(a) os-</p> <p>(i) mae'r cyfarfod yn ymwneud â chwyn am yr unigolyn a wahoddwyd ("A") neu wedi'i wneud gan A;</p> | <p><b>broses (yn ogystal â'r cam ffurfiol).</b></p> <p><b>Rhaid diwygio'r canlynol:</b></p> <p><b>Adran B1.9</b> - gwneud yn glir y gellir cynnal y cyfarfod adolygu (fel rhan o'r broses ffurfiol) gyda'r tiwtor/asesydd personol yn Gymraeg (gyda chyfieithu ar y pryd os oes angen).</p> <p><b>Dylai unrhyw gyfarfodydd dilynol fel rhan o'r broses ddisgyblu ffurfiol fod ar gael yn Gymraeg os byddai'n well gan y dysgwr wneud hynny (gyda chyfieithu ar y pryd os oes angen). Mae hyn yn cynnwys adrannau:</b></p> <p><b>B2.3</b></p> <p><b>Adran C-</b> dylai gweithdrefnau'r panel disgyblu, gan gynnwys unrhyw adroddiadau / gwaith papur a rennir gyda'r dysgwr, fod ar gael yn Gymraeg os yw'r dysgwr wedi nodi mai Cymraeg yw</p> |  |
|--|--|--|

|   |   |  |   |                                 |                                       |                                 |
|---|---|--|---|---------------------------------|---------------------------------------|---------------------------------|
|   | <p><b>(ii) mae'r cyfarfod yn ymwneud â champau disgyblu ynghylch A;</b> neu</p> <p>(iii) diben y cyfarfod yw darparu cymorth myfyrwyr i A,</p> <p><input type="checkbox"/></p> <p><input type="checkbox"/>ac</p> <p>(b) os yw A wedi eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod;</p> <p>oni bai eich bod yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu.</p> | <p>ei ddewis iaith ar gyfer y broses ddisgyblu.</p> <p><b>B2.4 - a yw'r llythyr yn ddwyieithog yn awtomatig? Neu a gaiff ei anfon yn newis iaith y dysgwr - wedi'i nodi ar eDrac</b></p> |   |                                 |                                       |                                 |
| <p><b>Casgliad: Ticiwch un</b></p>  | <p><b>Addasu'r Polisi</b></p>   | <p><input type="checkbox"/></p>  | <p><b>Parhau â'r Polisi a'i brosesu</b></p> | <p><input type="checkbox"/></p> | <p><b>Atal a Diddymu'r Polisi</b></p> | <p><input type="checkbox"/></p> |
| <p><b>Mae angen addasu'r polisi er mwyn cynyddu'r effeithiau cadarnhaol a lleihau effeithiau'r negyddol ar gyfleoedd bobl i ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y</b></p> | <p><b>Diwygiadau o dan 3.1:</b></p> <p><input type="checkbox"/>Mae Cytundeb y Dysgwyr ar gael yn Gymraeg neu Saesneg.</p> <p><b>Rhaid diwygio'r canlynol:</b></p>   |  |   |                                 |                                       |                                 |



|  |  |                        |                          |
|--|--|------------------------|--------------------------|
| <p><b>Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg:</b></p> | <p><b>Adran B1.9</b> - gwneud yn glir y gellir cynnal y cyfarfod adolygu (fel rhan o'r broses ffurfiol) gyda'r tiwtor/asesydd personol yn Gymraeg (gyda chyfieithu ar y pryd os oes angen).</p> <p><b>Dylai unrhyw gyfarfodydd dilynol fel rhan o'r broses ddisgyblu ffurfiol fod ar gael yn Gymraeg os byddai'n well gan y dysgwr wneud hynny (gyda chyfieithu ar y pryd os oes angen). Mae hyn yn cynnwys adrannau:</b></p> <p><b>B2.3</b></p> <p><b>Adran C-</b> dylai gweithdrefnau'r panel disgyblu, gan gynnwys unrhyw adroddiadau / gwaith papur a rennir gyda'r dysgwr, fod ar gael yn Gymraeg os yw'r dysgwr wedi nodi mai Cymraeg yw ei ddewis iaith ar gyfer y broses ddisgyblu.</p> <p><b>B2.4 - a yw'r llythyr yn ddwyieithog yn awtomatig? Neu a gaiff ei anfon yn dewis iaith y dysgwr - wedi'i nodi ar eDrac</b></p> |                        |                          |
| <p><b>Dyddiad cwblhau'r camau addasu</b></p>         | <p><a href="#">Mae'r argymhellion uchod wedi'u gweithredu a'r polisi wedi'i ddiwygio 18/10/2022</a></p>  |                        |                          |
| <p><b>Llofnod:</b></p>                               | <p><b>Angharad Roberts</b></p>   | <p><b>Dyddiad:</b></p> | <p><b>12.10.2022</b></p> |